

Rhagair

Dyma fy adroddiad cyntaf ers ailbenodi aelodau Panel Dyfarnu Cymru yn Hydref 2007. Peth braf yw fod gan Dr Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ddigon o ffydd yn yr aelodau i'n gwahodd i wasanaethu am dymor pellach o 5 mlynedd.

Nid yw'n teimlo fel 5 mlynedd ers ein seminar hyfforddi cyntaf ym mis Mawrth 2003 pan gyfarfu aelodau'r Panel â'i gilydd am y tro cyntaf ar ôl cael ein penodi. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ers y dyddiau cynnar hynny.

Hoffwn ddiolch i Helen Cole, Hywel James, Stewert Sandbrook-Hughes, Ian Blair, Colin Evans, Christine Jones a Juliet Morris am eu gwaith caled a'u brwdfrydedd yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Edrychaf ymlaen at weithio gyda nhw am y pum mlynedd nesaf.

Yn 2007-08, cafodd y Panel 4 atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac un apêl yn erbyn penderfyniadau'r pwyllgorau safonau o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Yn ystod y flwyddyn, cefais 3 atgyfeiriad pellach oddi wrth yr Ombwdsmon ac un apêl bellach. Ceir crynodeb o'r achosion hynny a benderfynwyd yn Adran 3 o'r Adroddiad hwn.

Credaf fod hyfforddi a datblygu aelodau'r Panel yn holl bwysig ac unwaith eto eleni bu'n rhan bwysig o weithgareddau'r Panel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ym mis Medi, ymunodd aelodau'r Panel unwaith eto â'u cymheiriaid ym Mhanel Dyfarnu Lloegr ar gyfer seminar hyfforddi ar y cyd yn Warwick. Mae hyn yn dal i fod yn ddigwyddiad gwerth chweil gan fod llawer o fudd i'w gael o rannu arferion a phrofiadau cyffredin.

Roeddwn yn falch yn nigwyddiad hyfforddi Warwick fod fy ngwahoddiad ar gyfer Panel Dyfarnu Cymru i gynnal y rhaglen hyfforddi nesaf ar y cyd yng Nghymru, wedi'i dderbyn gan David Laverick, Llywydd Panel Dyfarnu Lloegr.

Ym mis Rhagfyr, roeddwn yn falch dros ben o allu croesawu'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i'n digwyddiad hyfforddi blynyddol er mwyn egluro wrtho beth yw gwaith y Panel a'i dribiwnlysoedd. Rwyf yn ddiolchgar



iawn i Dr Gibbons am neilltuo amser yn ei amserlen brysur iawn i fod yn bresennol. Hefyd cawsom gwmni Andrew Walsh, Cyfarwyddwr Ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a roddodd olwg i ni ar weithdrefnau ymchwilio a'r broses o baratoi adroddiadau i honiadau o dorri'r cod ymddygiad.

Gan ein bod yn sôn am Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, hoffwn ddatgan fy niolch i Adam Peat sef yr Ombwdsmon tan fis Ebrill 2008 yn dal swydd Ombwdsmon. Cefais sawl cyfarfod buddiol gydag Adam ynghylch gwaith ein swyddfeydd. Bu Adam yn bresennol mewn nifer o'n digwyddiadau hyfforddi i ddiweddarau aelodau am waith ei swyddfa ac i drafod materion o gyd-ddiddordeb. Pob dymuniad da yn ei ymddeoliad ac edrychaf ymlaen at gael perthynas waith yr un mor dda â'i olynydd Peter Tyndall.


Wrth edrych yn ôl dros y pum mlynedd gyntaf o waith y Panel Dyfarnu rydym wedi cael 16 atgyfeiriad oddi wrth yr Ombwdsmon a 10 apêl yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau. Credaf fod y nifer cymharol fach yma o achosion yn adlewyrchu fy safbwynt optimistaidd yn 2005 "fod aelodau llywodraeth leol yng Nghymru wedi cydnabod pwysigrwydd safonau priodoldeb mewn gwaith cyhoeddus, ac wedi'u harddel".

Gan edrych ymlaen, bu nifer o ddatblygiadau llynedd a fydd o bosibl yn dylanwadu ar waith y Panel Dyfarnu yn ystod y blynnyddoedd nesaf. Ym mis Tachwedd 2007, mynychais lansiad y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, sydd wedi disodli'r Cyngor Tribiwnlysoedd. Mae gan y Cyngor rôl allweddol i sicrhau bod cyfundrefnau cyfiawnder gweinyddol a thribiwnlysoedd yn hygyrch, teg ac effeithiol. Mae hawl gan aelodau o'r Pwyllgor Cymreig y Cyngor i fynychu fel arsylwyr mewn tribiwnlysoedd a drefnir gan y Panel Dyfarnu er mwyn monitro ac adrodd ar ein perfformiad.

Ym mis Mawrth 2008, lluniodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol offeryn statudol yn cyflwyno cod model ymddygiad newydd ar gyfer awdurdodau perthnasol yng Nghymru (ac eithrio awdurdodau'r heddlu). Roeddwn yn ddiolchgar am y cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Grŵp Cyfeirio Cod Ymddygiad, a sefydlwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i helpu i lunio'r cod newydd. Roedd hyn yn fy ngalluogi i gyflwyno nifer o faterion lle'r oedd tribiwnlysoedd



wedi canfod bod aelodau'n cael trafferth deall eu rhwymedigaethau o dan y cod blaenorol. Rwyf yn falch bod y rhain wedi cael sylw yn y cod newydd, sydd yn fy marn i'n sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng rhoi sicrwydd i'r cyhoedd am onestrwydd a phriodoldeb y rhai sy'n eu cynrychioli, gan eu sicrhau bod gwell eglurder i aelodau o ran cyflawni eu rolau democratig wrth gynrychioli diddordeb eu hetholwyr.



J PETER DAVIES
Llywydd
Gorffennaf 2008





Cynnwys

1. Cefndir	7
• Deddf Llywodraeth Leol 2000	7
• Cod Ymddygiad	7
• Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	7
• Rôl Panel Dyfarnu Cymru	8
2. Aelodau Panel Dyfarnu Cymru	10
3. Honiadau o Gamymddwyn	12
• Crynodeb o honiadau a gafwyd oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	12
• Crynodeb o Dribiwnlysoedd Achos	14
• Crynodeb o Dribiwnlysoedd Apêl	21
4. Trosolwg o Weithdrefnau	24
5. Uned Gymorth	25
6. Atodiad	26
• Crynodeb o'r cosbau a osodwyd gan dribiwnlysoedd achos a thribiwnlysoedd apêl	26





1. Cefndir

Deddf Llywodraeth Leol 2000

Sefydlodd Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 fframwaith newydd i hyrwyddo cadw safonau ymddygiad cyson gan aelodau llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr. Ar 21 Mehefin 2001, gwnaeth y Cynulliad Cenedlaethol y set gyntaf o reoliadau gan weithredu'r fframwaith hwn yng Nghymru.

Cod Ymddygiad

Mae'r fframwaith moesol yn seiliedig ar god ymddygiad statudol i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol h.y. cynghorau sirol a bwrdeistref sirol, cynghorau tref a chymuned, awdurdodau parc cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau'r heddlu. Yng Nghymru, mae'n rhaid i'r holl awdurdodau perthnasol (ac eithrio awdurdodau'r heddlu) fabwysiadu cod ymddygiad a bennir gan Lywodraeth y Cynulliad. Cyflwynwyd y cod model cyntaf hwnnw yn 2001. Lluniwyd cod model newydd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ym Mawrth 2008. Rhaid i awdurdodau perthnasol fabwysiadu cod ymddygiad yn seiliedig ar y model newydd cyn 20 Medi 2008. Rhaid i holl aelodau llywodraeth leol addo yn ysgrifenedig y byddant yn cadw at y cod y mae eu cyngor neu awdurdod wedi'i fabwysiadu cyn y gallant ymgymryd â'u gwaith.

Mae awdurdodau'r heddlu yng Nghymru a Lloegr yn destun cod model ymddygiad a bennir gan Lywodraeth y DU.

Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru/Pwyllgorau Safonau

Gall unrhyw un gyflwyno honiad ysgrifenedig i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") bod aelod etholedig neu gyfetholedig wedi torri cod ymddygiad awdurdod. Rhoddodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 bwerau i'r Ombwdsmon ystyried honiadau o'r fath ac ymchwilio iddynt.



Mae'n bosibl y bydd yr Ombwdsmon yn dod i'r casgliad ar ddiwedd yr ymchwiliad nad yw'r cod wedi'i dorri neu nad oes angen cymryd unrhyw gamau eraill. Os bydd yn dod i gasgliad gwahanol, bydd yn llunio adroddiad ar yr ymchwiliad a gynhaliwyd ac yn ei anfon naill at Swyddog Monitro'r awdurdod perthnasol, neu at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru.

Os bydd yr Ombwdsmon yn cyfeirio'r mater i sylw'r Swyddog Monitro, bydd Pwyllgor Safonau'r awdurdod perthnasol yn ystyried adroddiad yr ymchwiliad. Bydd y pwyllgor hefyd yn ystyried unrhyw sylwadau gan y sawl y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag ef, ac os yw'r cod wedi'i dorri, bydd yn penderfynu a ddylid gosod unrhyw gosb. Gallai hyn amrywio o gerydd i ataliad am hyd at chwe mis.

Gall yr Ombwdsmon derfynu ymchwiliad ar unrhyw amser a chyfeirio'r materion sy'n destun yr ymchwiliad i Swyddog Monitro'r awdurdod perthnasol i gynnal ymchwiliad a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Safonau.

Rôl Panel Dyfarnu Cymru

Mae gan y Panel Dyfarnu ddwy swyddogaeth statudol:

- Ffurio tribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim i ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn dilyn ymchwiliad i honiadau bod aelod heb gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol;
- Ystyried apelau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau lleol.

Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim

Pan fydd yr Ombwdsmon yn anfon adroddiad at Lywydd y Panel Dyfarnu, sefydlir "tribiwnlys achos" yn cynnwys aelodau o'r Panel er mwyn ystyried yr adroddiad, derbyn tystiolaeth a phenderfynu a yw'r cod ymddygiad wedi'i dorri.



Os bydd y tribiwnlys yn penderfynu bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad awdurdod, mae ganddo bwerau i atal aelod dros dro, neu i'w atal dros dro yn rhannol, am hyd at flwyddyn; neu gall anghymhwyso aelod am hyd at bum mlynedd. Pan fydd tribiwnlys achos yn penderfynu bod rhywun wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad awdurdod, gall y person hwnnw apelio i'r Uchel Lys yn erbyn y penderfyniad hwnnw, neu unrhyw benderfyniad a wnaed gan y tribiwnlys mewn perthynas â'r gosb i'w gosod o dan adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Pan fydd yr Ombwdsmon o'r farn bod hynny o fudd i'r cyhoedd, gall wneud adroddiad interim i Lywydd y Panel Dyfarnu yn argymhell bod aelod yn cael ei atal dros dro tra bod ymchwiliad yn cael ei gynnal. Bydd tribiwnlys achos interim yn penderfynu a ddylai'r aelod gael ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol am hyd at chwe mis.

Tribiwnlysoedd Apêl

Pan fydd yr Ombwdsmon wedi cyfeirio'r mater i sylw'r swyddog monitro a phan fydd y pwyllgor safonau wedi penderfynu bod y cod ymddygiad wedi'i dorri, bydd gan yr aelod dan sylw hawl i apelio i'r Panel Dyfarnu. Mae'n rhaid arfer yr hawl hon o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd yr aelod hysbysiad o benderfyniad y pwyllgor safonau. Pan fydd tribiwnlys apêl yn cytuno bod y cod wedi'i dorri, gall gymeradwyo'r gosb a bennwyd gan y pwyllgor safonau, neu gyfeirio'r mater yn ôl i'r pwyllgor gydag argymhelliad y dylid pennu cosb wahanol. Gall y tribiwnlys apêl hefyd wrthdroi penderfyniad pwyllgor safonau bod aelod wedi torri'r cod ymddygiad.



2. Aelodau Panel Dyfarnu Cymru

Ailbenodwyd Aelodau i'r Panel 1 Hydref 2007 am gyfnod pellach o bum mlynedd. Mae gan aelodau'r Panel ystod eang o wybodaeth a phrofiad. Maent yn dod o wahanol rannau o Gymru sy'n golygu, cyhyd ac nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau, y gellir penodi aelodau i driwlynlysoedd ar sail ddaearyddol.

Mae'r Llywydd, yr aelodau cyfreithiol ac un o'r aelodau lleig yn siarad Cymraeg.



Mae Llywydd y Panel Dyfarnu, **Mr J Peter Davies**, yn berchen ar bractis cyfreithiol yng Nghaerdydd. Mae'n arbenigo mewn ymgyfreitha sifil a masnachol ac, yn fwyaf arbennig, mewn materion rheoliadol. Mae'n Ddirprwy Farnwr Rhanbarth ac yn gadeirydd y Tribiwnlys Disgyblu Cyfreithwyr. Cafodd ei benodi yn Ddyfarnwr Annibynnol i'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru o 1 Mai 2008.



Bargyfreithiwr yn Abertawe yw **Mr Stewert Sandbrook-Hughes** ac y mae hefyd yn ddyfarnwr i'r Gwasanaeth Dyfarnu Parcio Cenedlaethol.



Mae **Mr Hywel James** yn bartner yng nghwmni James & Bulteel yng Nghaerdydd. Mae'n arbenigo mewn ymgyfreitha, ac mewn esgeulustod proffesiynol yn fwyaf arbennig. Mae hefyd yn Ddirprwy Farnwr Rhanbarth.



Mae **Mrs Helen Cole** yn uwchbartner mewn practis cyffredinol yng nghefn gwlad Gorllewin Cymru ac yn arbenigo mewn achosion di-gynnen i gleientiaid preifat.



Ymgynghorydd peirianeg sifil rhan-amser yw **Mr Ian Blair** Bu'n gweithio fel Syrffwr Sirol gyda Chyngor Sir Powys ac mae wedi bod yn ddarlithydd gwadd i Brifysgol Cymru, Aberystwyth. Mae'n aelod o Fwrdd Llysoedd Canolbarth a Gorllewin Cymru.



Mae'r **Cynghorydd Colin Evans** yn gyn aelod o Gyngor Sir Gaerfyrddin. Mae hefyd yn gynghorydd Llafur gyda Chyngor Tref Cwm Aman.



Mae'r **Cynghorydd Christine Jones** yn aelod annibynnol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae hefyd yn aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Conwy.



Mae **Ms Juliet Morris** yn Ddadansoddydd Polisi gydag Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol ac yn gweithio ar ei liwt ei hun fel ymchwilydd polisi cymdeithasol i sefydliadau gan gynnwys Cyngor Defnyddwyr Cymru. Mae hefyd yn rhedeg busnes fferm yn Sir Gaerfyrddin.




3. Honiadau o Gamymddwyn

Trosolwg

Yn y cyfnod Hydref 2002 tan 31 Mawrth 2008, bu i'r Panel Dyfarnu ddyfarnu ar 16 atgyfeiriad oddi wrth yr Ombwdsmon a 7 apêl yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau. Yn ffigurau 1 a 2 rhoddir dadansoddiad o ganlyniad y penderfyniadau hynny. Ceir crynodeb o'r cosbau a roddwyd yn yr Atodiad.


Ffigur 1

Dyfarniadau tribiwnlysoedd achos - Hydref 2002 i Fawrth 2008




Ffigur 2

Dyfarniadau tribiwnlysoedd apêl - Hydref 2002 i Fawrth 2008



Ffigur 3

Tramgwyddiadau yn ôl paragraffau cod ymddygiad 2001



Crynodeb o Dribiwnlysoedd Achos

Cafodd y Panel 4 achos a atgyfeiriwyd oddi wrth yr Ombwdsmon oedd yn parhau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Atgyfeiriwyd 3 achos arall i sylw'r Panel gan yr Ombwdsmon yn ystod y cyfnod adrodd. Penderfynwyd ar y 7 achos gan dribiwnlysoedd achos yn y cyfnod sy'n cael ei gwmpasu gan yr adroddiad hwn ac fe'u crynhoir isod.

APW/010/2005/CT - Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

Roedd yr atgyfeiriad oddi wrth yr Ombwdsmon yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y cyngor drwy beidio â datgan buddiant a pheidio ag ymadael tra bod materion yn gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Unedol ar y cyd yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd yr Awdurdod.

Yn dilyn adolygiad cyn-wrandawriad a derbyn gwybodaeth ychwanegol, cyhoeddodd y Tribiwnlys Achos gyfarwyddyd rhestru oedd yn rhestru'r prif ffeithiau dadleuol perthnasol y byddai angen eu canfod, sef:

- a. oedd y cynghorydd yn berchen ar unrhyw dir a allai gael ei ddatblygu pan gymerodd ran yn y cyfarfodydd perthnasol o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro; a
- b. beth oedd effaith debygol cyflwyno polisi tai fforddiadwy arfaethedig ("Polisi 47") ar werth tiroedd ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro.

Hefyd roedd angen i'r Tribiwnlys Achos benderfynu a oedd y cynghorydd wedi ystyried a oedd ganddo fuddiant personol, o'r math y dylai ddatgelu.

Yn ystod y gwrandawriad canfu'r Tribiwnlys Achos fod y cynghorydd yn berchen ar dir a allai gael ei ddatblygu pan gymerodd ran yng nghyfarfodydd yr Awdurdod. Canfu'r Tribiwnlys Achos hefyd mai effaith debygol cyflwyno Polisi 47 ar werth tir oedd y byddai gwerth cartrefi presennol yn codi, ond y byddai gwerth cartrefi a fyddai'n cael eu hadeiladu o'r newydd yn aros yr un fath.

Canfu'r Tribiwnlys Achos fod y cynghorydd wedi ystyried a oes ganddo fuddiant personol yn ystod trafodaeth yr Awdurdod ar Bolisi 47, ond nad oedd buddiant o'r fath i'w ddatgelu.



Ar sail y ffeithiau a ganfuwyd, daeth y Tribiwnlys Achos i benderfyniad unfrydol nad oedd diffyg cydymffurfio â chod ymddygiad yr Awdurdod.

APW/004/2006-07/CT - Cyngor Sir Ynys Môn

Roedd yr atgyfeiriad oddi wrth yr Ombwdsmon yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad drwy beidio â datgan buddiant a pheidio ag ymadael yn ystod y drafodaeth ar ddyrannu tir ar gyfer datblygu tai yng nghyfarfod Pwyllgor Gwaith y Cyngor.

Honnwyd bod y cynghorydd wedi cefnogi cynnwys darn o dir ar gyfer datblygu tai yn y Cynllun Datblygu Unedol oedd yn eiddo i ddatblygwr eiddo yr oedd y cynghorydd wedi cael perthynas fusnes ag ef yn flaenorol ac wedi datgan yn gynharach ei fod yn gyfaill iddo.

Canfu'r Tribiwnlys Achos fod lefel o gyfeillgarwch rhwng y cynghorydd a'r datblygwr ond yn ôl yr hyn sy'n debygol, roedd unrhyw gyfeillgarwch wedi dod i ben ac erbyn adeg Cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith na ellid eu disgrifio'n gywir fel cyfeillion.

Canfu'r Tribiwnlys Achos fod perthynas fasnachol anuniongyrchol wedi bodoli rhwng y cynghorydd a'r datblygwr eiddo. Tra bod y berthynas yn wael roedd yn dal i barhau ar adeg cyfarfodydd y CDU ac roedd yn gyfystyr â buddiant personol o dan y cod.

Canfu'r Tribiwnlys Achos fod y cynghorydd bob amser wedi cefnogi datblygu'r tir dan sylw ar gyfer tai fforddiadwy yn gyson gan gredu'n wirioneddol fod angen am y cyfryw dir ar gyfer pobl leol. Dan yr amgylchiadau, ni chanfu'r Tribiwnlys Achos y gallai aelod o'r cyhoedd ddod i'r casgliad rhesymol fod y buddiant personol o'r fath fel y byddai'n effeithio'n sylweddol ar allu'r cynghorydd i weithredu'n unig ar sail rhagoriaethau'r achos ac er budd y cyhoedd.

Canfu'r Tribiwnlys Achos drwy benderfyniad unfrydol fod diffyg datgan buddiant personol, oedd yn torri'n rhannol baragraff 5.1.3.7(iii) o God Ymddygiad y Cyngor (cf. paragraff 16(3) o'r cod model), ond pe bai'r cynghorydd wedi datgan ei fuddiant gallai fod wedi siarad ar y mater yng Nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith.

Canfu'r Tribiwnlys Achos nad oedd natur y tramgwydd yn cyfiawnhau gosod cosb.



Roedd yr atgyfeiriad oddi wrth yr Ombwdsmon yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad drwy beidio â datgan buddiant a/neu natur buddiant a/neu beidio ag ymadael yn ystod y drafodaeth ar y materion yn ymwneud â busnesau oedd yn eiddo i'w fab a'i ferch yng nghyfraith yr oedd ganddo fuddiant personol ynddynt. Honnwyd hefyd fod y cynghorydd yn euog o ymddygiad amhriodol yn ystod cyfarfod o'r cyngor.

Cyn i'r tribiwnlys ddechrau ystyried yr honiadau ceisiodd y cynghorydd atal yr achos ar sail oedi diangen a rhagfarn tybiedig ar ran y tribiwnlys. Dadleuodd na fyddai'n bosibl iddo gael gwrandawriad teg, yn groes i Erthygl 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Canfu'r Tribiwnlys Achos fod canllawiau yn yr awdurdodau cyfreithiol i gefnogi'r cynigiad bod yn rhaid croesi lefel trothwy cymharol uchel cyn y gellid dweud mewn unrhyw achos bod y cyfnod o oedi yn afresymol. Nododd y tribiwnlys fod y ymchwiliad, oedd yn ymwneud â nifer o honiadau unigol, ond cysylltiedig a wnaed dros gyfnod o amser, wedi dod i ben o fewn cyfnod o 9 mis. Roedd gwrandawriad y tribiwnlys wedi dechrau o fewn cyfnod o 9 mis i atgyfeiriad yr Ombwdsmon. Canfu'r Tribiwnlys Achos nad oedd yr oedi'n torri Erthygl 6.

Hawliodd y cynghorydd na ddylai'r Tribiwnlys Achos weld adroddiad llawn yr Ombwdsmon. Roedd yr adroddiad yn delio â 16 o honiadau, ac roedd yr Ombwdsmon wedi canfod tystiolaeth i gefnogi 9 yn unig ohonynt. Dywedodd y Tribiwnlys Achos ei fod yn annibynnol i'r Ombwdsmon. Roedd ei rôl yn holgar ei natur a byddai'n dod i gasgliad ei hun ar sail ffeithiau'r honiadau a roddwyd gerbron. Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad ei fod yn amhosibl gwahanu'r dystiolaeth rhwng digwyddiadau lle canfu'r Ombwdsmon dramgwyddau posibl oddi wrth rai lle canfu dystiolaeth annigonol i ddod i'r casgliad bod tramgwydd wedi'i gyflawni. Ni chanfu'r Tribiwnlys Achos unrhyw sail i awgrymu y tanseiliwyd ei amhleidedd.

O ran yr honiadau yn erbyn yr aelod, daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad bod 10 achlysur pan oedd paragraff 16(3) o god ymddygiad wedi'i dorri. Dau o'r rhieni oedd peidio â diffinio natur buddiant, roedd dau'n gysylltiedig â rhan weithgar gan



y cynghorydd mewn materion yr oedd ganddo fuddiant ynddynt. Roedd un methiant difrifol i ddatgan unrhyw fuddiant mewn perthynas â thrafod materion yn ymwneud â busnes ei ferch yng nghyfraith. Hefyd roedd 5 tramgwydd difrifol o beidio ag ymadael, dau o'r rheini ar ôl i'r cynghorydd ddod yn ymwybodol fod honiadau wedi'u gwneud i'r Ombwdsmon.

Rhoddodd y Tribiwnlys Achos ystyriaeth i'r ffaith nad oedd y cynghorydd wedi gweithredu mewn unrhyw ffordd oedd yn golygu bod busnes ei fab neu ferch yng nghyfraith wedi elwa. Fodd bynnag, daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad fod peidio ag ymadael yn fwriadol a bod y cynghorydd wedi anwybyddu'n fwriadol gyngor y Swyddog Monitro. Roedd y cynghorydd yn gynghorydd profiadol a byddai wedi bod yn ymwybodol o'r canlyniadau'n deillio o anwybyddu cyngor y Swyddog Monitro.

O ystyried natur fwriadol y tramgwyddau, diffyg pryder y cynghorydd a'r effaith ar hyder y cyhoedd, daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad y dylid atal y cynghorydd am 9 mis rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Cymuned Saint-y-brid.

Deilliodd yr honiad fod y cynghorydd yn euog o ymddygiad amhriodol yn ystod cyfarfod o'r cyngor o un sylw unigol yn ystod cyfarfod llawn tensiwn. Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad nad oedd angen cosb ar wahân ar gyfer hyn.

APW/007/2006-07/CT - Cyngor Cymuned Sili

Roedd yr atgyfeiriad oddi wrth yr Ombwdsmon yn ymwneud â honiadau fod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y cyngor drwy geisio cael cefnogaeth cyd gynghorydd er mwyn parhau i fod yn aelod o weithgor y cyngor drwy dactegau bwllo annymunol. Drwy wneud hyn, dangosodd ddiffyg parch ac ystyriaeth tuag at y cynghorydd hwnnw gan ymddwyn mewn ffordd oedd yn debygol o ddwyn anfri ar swydd aelod.

Nid oedd y cynghorydd yn dymuno ymddangos gerbron y Tribiwnlys. Drwy ei gyfreithiwr roedd yn derbyn ei fod wedi dangos diffyg parch ac ystyriaeth tuag at ei gyd gynghorydd. Hefyd derbyniodd ei fod wedi ymddwyn mewn ffordd a allai fod wedi dwyn anfri ar swydd aelod.



Yn ei Adroddiad, ystyriodd yr Ombwdsmon fod natur ymagwedd y cynghorydd tuag at gyd gynghorydd yn amhriodol ac anfoesegol. Roedd y Tribiwnlys Achos yn rhannu barn yr Ombwdsmon fod y cynghorydd wedi ceisio ennill cefnogaeth drwy fwlio a thactegau annymunol.

Canfu'r Tribiwnlys Achos drwy benderfyniad unfrydol fod diffyg cydymffurfio â chod ymddygiad y Cyngor ac y dylid atal y cynghorydd rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Cymuned Sili am gyfnod o 6 mis.

APW/001/2007/2008 CT - Dinas a Sir Abertawe

Roedd yr atgyfeiriad oddi wrth yr Ombwdsmon yn ymwneud â honiad fod cyn gynghorydd wedi torri cod ymddygiad y cyngor drwy wneud defnydd amhriodol o offer cyfrifiadurol oedd yn eiddo i'r Cyngor i bwrpas preifat trwy lawrlwytho delweddau amhriodol ac anfon llythyrau at bapur newydd lleol, oedd yn honni'n ffug eu bod gan aelodau'r cyhoedd. Roedd gweithredoedd y cynghorydd wedi dwyn anfri ar swydd aelod. Dangosodd y cynghorydd ddiffyg parch ac ystyriaeth tuag at eraill drwy beidio ag ystyried effaith ei weithredoedd ei hun ar weithwyr y cyngor a welodd y delweddau ar yr offer cyfrifiadurol yn ddiweddarach.

Roedd y patrwm o gamymddwyn cyson yn dangos diffyg hyrwyddo egwyddorion y cod drwy arweinyddiaeth ac esiampl gan y cynghorydd.

Nid oedd y cynghorydd yn dymuno ymddangos gerbron y Tribiwnlys. Drwy ei gyfreithiwr cydnabu, wrth gyfeirio'r mater yn wirfoddol at yr Ombwdsmon, ei fod yn derbyn ei fod wedi camddefnyddio offer cyfrifiadurol oedd yn eiddo i'r Cyngor, a thrwy wneud hynny, wedi dwyn anfri ar swydd cynghorydd.

Hefyd dywedodd y cynghorydd nad oedd yn anghytuno â chasgliad yr Ombwdsmon ei fod wedi dangos diffyg parch tuag at eraill a heb hyrwyddo egwyddorion y cod drwy arweinyddiaeth ac esiampl.

Canfu'r Tribiwnlys Achos drwy benderfyniad unfrydol fod diffyg cydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod. Canfu'r Tribiwnlys Achos fod y cynghorydd, yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, wedi camddefnyddio offer cyfrifiadurol oedd yn eiddo i'r Cyngor er mwyn lawrlwytho nifer fawr o ddelweddau pornograffig o oedolion ac i greu llythyrau dan enwau ffug a'u hanfon at y wasg.



Hefyd dywedodd y cyn gynghorydd nad oedd yn anghytuno â chasgliad yr Ombwdsmon nad oedd wedi ystyried yr effaith ar weithwyr y cyngor oedd wedi gorfod edrych y delweddau pan ddychwelwyd cyfrifiadur er mwyn ei drwsio.

Penderfynodd y Tribiwnlys drwy benderfyniad unfrydol y dylid atal y cyn gynghorydd am 2 flynedd 6 mis rhag bod neu ddod yn aelod o Ddinas a Sir Abertawe neu unrhyw awdurdod perthnasol arall.

APW/004/2007-08/CT - Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Roedd yr atgyfeiriad oddi wrth yr Ombwdsmon yn ymwneud â honiadau fod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y cyngor drwy ddwyn anfri ar swydd aelod a'r Cyngor, ei fod wedi defnyddio ei safle'n amhriodol i gael mantais iddo'i hun ac i'w dad, a thrwy wneud hynny, heb ddatgelu buddiant yn ddigonol a heb ymadael.

Roedd y tramgwyddiadau honedig yn ymwneud ag ymweliad safle i ganfod ffeithiau gan Bwyllgor Cynllunio a Rheoleiddio'r Cyngor, pwyllgor yr oedd y cynghorydd yn aelod ohono. Trefnwyd yr ymweliad safle i archwilio gwaith i goed ar dir ger eiddo'r cyngor oedd yn eiddo i'w dad.

Canfu'r Tribiwnlys Achos fod y cynghorydd, drwy fynychu'r cyfarfod, o dan rwymedigaeth i ddatgan buddiant oherwydd ei fod yn ymwneud â thir ei dad, oedd yn destun nifer o geisiadau cynllunio. Byddai ei bresenoldeb wedi ymddangos fel arwydd o gefnogaeth i'w dad drwy gydol y cyfarfod. Ystyriai'r Tribiwnlys Achos y dylai'r cynghorydd fod wedi gwneud yn glir ar gychwyn y cyfarfod a oedd yn bresennol fel unigolyn preifat neu fel aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Rheoleiddio. Drwy beidio â gwneud hyn, roedd y Tribiwnlys yn fodlon ei fod yn bresennol fel aelod o'r Cyngor.

Canfu'r Tribiwnlys Achos drwy benderfyniad unfrydol fod diffyg cydymffurfio â chod ymddygiad y Cyngor a daeth i'r casgliad y dylid ei atal am 12 mis o fod neu ddod yn aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr neu unrhyw awdurdod perthnasol arall.



Roedd yr atgyfeiriad oddi wrth yr Ombwdsmon yn ymwneud â honiad fod cyn gynghorydd wedi torri cod ymddygiad y cyngor drwy ddefnyddio ei safle'n amhriodol i helpu ei fab a'i ferch yng nghyfraith mewn materion yn ymwneud â chwyn yn erbyn eu cymdogion, nad oedd wedi dangos parch ac ystyriaeth yn ei ddeliadau â staff y Cyngor a'i ymgais i danseilio eu hamhleidioldeb, ei fod wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol a bod ei ymddygiad wedi dwyn anfri ar swydd aelod o'r awdurdod.

Canfu'r Tribiwnlys Achos fod y cynghorydd wedi gwneud nifer o alwadau i swyddogion y cyngor i drafod materion yn ymwneud â'i fab a'i ferch yng nghyfraith o safbwynt y gŵyn yn erbyn eu cymdogion a bod nifer o'r galwadau y tu allan i oriau swyddfa. Gwnaed y galwadau ffôn gan y cynghorydd yn ei rôl fel aelod etholedig.

Roedd y Tribiwnlys Achos yn fodlon fod y cynghorydd, yn un o'r galwadau ffôn gyda swyddogion o'r cyngor, wedi ymddwyn mewn ffordd elyniaethus ac wedi gofyn i'r swyddog ryddhau gwybodaeth gyfrinachol.

Roedd y Tribiwnlys Achos yn fodlon bod Dirprwy Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ysgrifennu at y cynghorydd yn pwysleisio'r safle pwerus sydd gan aelodau etholedig wrth ddelio ag aelodau o staff sy'n gallu teimlo'n dan fygythiad yn hawdd gan aelodau. Canfu'r Tribiwnlys Achos fod ymddygiad y cynghorydd wedi parhau y tu hwnt i ddyddiad y llythyr o safbwynt cysylltu â staff.

Canfu'r Tribiwnlys Achos fod tystiolaeth annigonol i gadarnhau honiad fod y cynghorydd wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol.

Canfu'r Tribiwnlys Achos nad oedd y cynghorydd wedi dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill a bod ei ymddygiad cyson mewn deliadau gyda swyddogion y cyngor yn gyfystyr ag aflonyddu. Hefyd canfu'r Tribiwnlys fod y cynghorydd, drwy ei weithredoedd, wedi ceisio tanseilio amhleidioldeb gweithwyr yr awdurdod.

Canfu'r Tribiwnlys Achos fod y cynghorydd, drwy natur gronnus ei ddeliadau gyda swyddogion y cyngor a thrwy wneud honiad ffug ynghylch swyddog o'r cyngor ynghylch gosod offer mewn eiddo, wedi dwyn anfri ar swydd aelod.



Canfu'r Tribiwnlys Achos fod y cynghorydd, fel aelod etholedig, wedi hybu buddiannau ei deulu ei hun yn amhriodol.

Canfu'r Tribiwnlys Achos fod yr honiadau'n ddifrifol ac yn cynnwys aflonyddu ar swyddogion y cyngor. Tra bod agweddau o'r honiadau a allai fod wedi cyfiawnhau ei anghymhwysu o'i swydd, roedd hefyd nifer o ffactorau lliniarol. Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad fod dyddiad agos yr etholiadau lleol yn golygu y byddai effaith anghymhwysu'n anghyfartal. Daeth i'r casgliad drwy benderfyniad unfrydol y dylid atal y cynghorydd rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am gyfnod o 12 mis.

Crynodeb o Dribiwnlysoedd Apêl

Cariwyd un apêl drosodd o'r flwyddyn adrodd flaenorol a chafodd y Panel apêl arall yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau lleol. Penderfynwyd ar y ddwy apêl yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn ac fe'u crynhoir isod.

APW/005/2006-07/A - Cyngor Cymuned Aberffraw

Cafwyd apêl yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn fod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y cyngor cymuned ac y dylid ei atal am 3 mis.

Yr honiad oedd bod y cynghorydd wedi methu â datgan buddiant pan oedd y Cyngor yn ystyried ymgeiswyr i lenwi swydd drwy gyfethol, pan oedd aelod o'r teulu'n ymgeisydd.

Daeth yn amlwg o'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynghorydd nad oedd yn bwriadu herio naill ai'r canfyddiad ei fod wedi torri'r cod ymddygiad, na'r gosb a osodwyd gan y Pwyllgor Safonau. Gofynnwyd i'r tribiwnlys ddod i gasgliad ynglŷn â'r cynghorydd mewn perthynas â beirniadaethau tybiedig o Gyngor Cymuned Aberffraw yn adroddiad penderfyniad ysgrifenedig y Pwyllgor Safonau.

Eglurodd i'r cynghorydd mai pwrpas y Tribiwnlys Apêl oedd penderfynu ynghylch cynnal neu wrthod dyfarniad y Pwyllgor Safonau bod diffyg cydymffurfio â'r cod ymddygiad. Pe bai'r tribiwnlys yn cynnal y penderfyniad yna byddai'n penderfynu



a fyddai'n cymeradwyo'r gosb a osodid ai peidio neu'n cyfeirio'r mater yn ôl i sylw'r Pwyllgor Safonau gydag argymhelliad i osod cosb wahanol.

Hysbyswyd y cynghorydd nad oedd gan y tribiwnlys unrhyw awdurdodaeth mewn perthynas â gweithdrefn y Pwyllgor Safonau na thelerau ei benderfyniad o safbwynt awgrymu beirniadaeth o'r cyngor cymuned. Rhoddwyd cyfle i'r cynghorydd wneud sylwadau pellach. Ni chafwyd sylwadau pellach a hysbysodd y Pwyllgor Safonau fod y mater wedi cau.

APW/002/2007/2008 A - Dinas a Sir Abertawe

Cafwyd apêl yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau Dinas a Sir Abertawe fod cynghorydd wedi torri cod ymddygiad yr awdurdod ac y dylid ei geryddu mewn perthynas ag un mater a'i atal am 1 mis mewn perthynas ag un arall.

Yr honiadau oedd bod y cynghorydd wedi methu â dod i benderfyniad ar sail rhagoriaethau'r amgylchiadau dan sylw pan oedd yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio ar 20 Gorffennaf 2006, a thrwy wneud hynny, roedd hefyd wedi methu â pharchu cyngor Swyddog Monitro'r awdurdod.

Dadleuodd y cynghorydd ei fod wedi peidio â chydymffurfio â'r cod. Dywedodd nad oedd wedi pleidleisio yn y naill gyfarfod na'r llall felly roedd yr awgrym o benderfynu ymlaen llaw yn amherthnasol. Dywedodd ei fod wedi ystyried cyngor y Swyddog Monitro ond wedi dewis i beidio â'i ddilyn.

Dywedodd y cynghorydd bod ei benderfyniad i beidio â phleidleisio'n dangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth i gyngor y Swyddog Monitro o safbwynt penderfynu ymlaen llaw ai peidio, ond ni allai esbonio pam ei fod yn teimlo ei bod yn briodol siarad ond nid i bleidleisio.

Roedd y Tribiwnlys Apêl yn fodlon nad oedd y cynghorydd yn gwerthfawrogi ei fod wedi penderfynu ymlaen llaw, a'i fod yn wir, wedi'i argyhoeddi nad oedd. Ystyriai'r Tribiwnlys Apêl y byddai methiant y cynghorydd i gywiro neu egluro gwybodaeth oedd wedi ymddangos mewn cylchlythyrau, ei wrthwynebiad amlwg



i faterion a ystyrid mewn cyfarfodydd pwyllgor y cyngor, ei bresenoldeb rhwng y cyfarfodydd hynny mewn cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd i wrthwynebu'r cynllun, yn ôl yr hyn sy'n debygol, yn arwain person rhesymol i ddod i'r casgliad ei fod wedi penderfynu ymlaen llaw.

Roedd y Tribiwnlys Apêl o'r farn bod ystyr "parchu" cyngor a roddwyd gan y Swyddog Monitro'n golygu derbyn y cyfryw gyngor yn niffyg rhesymau da i beidio â gwneud hynny. Daeth y Tribiwnlys Apêl i'r casgliad na roddwyd rhesymau o'r fath.

Cynhaliodd y Tribiwnlys ddyfarniad y pwyllgor safonau fod y cynghorydd wedi torri'r cod ymddygiad. Penderfynodd y tribiwnlys ymhellach i gymeradwyo penderfyniad y pwyllgor safonau y dylid ceryddu'r cynghorydd am dorri paragraff 8(a) o'r cod a'i atal am 1 mis am dorri paragraff 8(b) o'r cod.



4. Trosolwg o Weithdrefnau

Rheolir gwaith Panel Dyfarnu Cymru gan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru/Gweinidogion Cymru a Llywodraeth y DU (yr olaf mewn perthynas ag awdurdodau'r heddlu).

Prif nod y Panel Dyfarnu yw sicrhau bod pob parti'n gallu cyflwyno ei achos ac y rhoddir yr ystyriaeth lawnaf a thecaf posibl i bob achos.

Bydd tribiwnlysoedd fel rheol yn cynnwys cadeirydd sydd â chymhwyster cyfreithiol, a dau berson arall. Gellir amrywio hyn yn ôl disgrisiwn y Llywydd.

Cynhelir gwrandawiadau tribiwnlysoedd yn gyhoeddus fel rheol ac eithrio pan fydd y tribiwnlys o'r farn y byddai cyhoeddusrwydd yn amharu ar gyfiawnder, neu pan fydd y gwrthapelydd neu'r apelydd yn cytuno y gellir ymdrin â'r honiadau drwy sylwadau ysgrifenedig. Mae'n bosibl y bydd rhesymau eraill o bryd i'w gilydd dros beidio â chynnal gwrandawriad, neu ran o wrandawriad, yn gyhoeddus.

Cynhelir gwrandawiadau yn lleol fel rheol pan fydd lleoliad addas ar gael. Wrth wneud trefniadau ar gyfer gwrandawiadau ystyrir unrhyw anghenion arbennig sydd gan y rhai hynny a fydd yn bresennol e.e. mynediad i gadeiriau olwyn, cyfieithydd, cymorth clywed.

Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer y rhai sy'n dymuno i wrandawriad tribiwnlys gael ei gynnal yn Gymraeg ac mae pob cadeirydd tribiwnlys ar hyn o bryd yn siarad Gymraeg.

Mae gan y sawl sy'n destun yr honiadau hawl i roi ystyriaeth, galw tystion, holi unrhyw dystion ac annerch y tribiwnlys ar faterion sy'n berthnasol i honiadau sy'n cael eu hystyried.

Cyhoeddir manylion am wrandawiadau tribiwnlysoedd a'u canlyniad ar wefan y Panel ac yn y wasg leol, fel y bo'n briodol.

Ceir hawl i apelio i'r Uchel Lys o dan adrannau 78(10) a 79(15) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, fel y bo'n briodol, yn erbyn penderfyniad tribiwnlysoedd achos interim a thribiwnlysoedd achos a sefydlwyd gan y Panel Dyfarnu. Nid oes



hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau tribiwnlysoedd apêl, ond, fel corff cyhoeddus, gall y Panel Dyfarnu a'i dribiwnlysoedd hefyd fod yn destun adolygiad barnwrol pan fo'n briodol.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am weithdrefnau tribiwnlysoedd ar wefan y Panel Dyfarnu (www.adjudicationpanelwales.org.uk).

5. Uned Gymorth

Cefnogir y Panel Dyfarnu gan:

Stephen Phipps, Cofrestrydd y Panel.
John Davies,
Carol Webber,
Khalid Afzhal

Cyfeiriad y Panel yw:

Panel Dyfarnu Cymru
Ystafell G-076
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Rhif ffôn: 029 2082 6705/6414

Rhif ffacs: 029 2082 5346

E-bost: adjudication.panel@wales.gsi.gov.uk

Gwefan: www.adjudicationpanelwales.org.uk



Crynodeb o'r cosbau a osodwyd gan y tribiwnlysoedd achos a thribiwnlysoedd apêl yn y cyfnod rhwng Hydref 2002 a 31 Mawrth 2008

Cosb	Hyd y Gosb	Nifer o Benderfyniadau
Tribiwnlysoedd Achos ac Apêl		
Amghymhwyso	2 flynedd 6 mis	1
	2 flynedd	1
	1 flwyddyn	1
Atal	12 mis	2
	9 mis	2
	6 mis	4
	3 mis	1
	2 fis	2
	1 mis	2
Atal rhannol		0
Ceryddu		2
Tramgwydd - dim gweithredu		1
Dim tramgwydd		4
Apelau		
Cynnal/gwrthod y dyfarniad		6 (86%)/1 (14%)
Argymhell cosb wahanol		1 cynnydd/1 gostwng
gwrthodwyd:		
• Allan o amser		1
• Heb fod o fewn awdurdodaeth		1
• Tynnwyd yn ôl		1